

# Chwaraeon RhCT

## Kennedy

### Ysgol Gynradd Treorci

Mae Kennedy yn rhan o grŵp gwych o Lysgenhadon Ifainc yn Ysgol Gynradd Treorci. Mae ei hathrawon wedi ei henwebu oherwydd ei bod hi'n llawn positifrwydd, yn un hawdd sgwrsio â hi, yn ddiffuant, ac mae hi'n rhoi pobl eraill yn gyntaf bob amser. Roedden nhw'n teimlo y byddai hi'n llysgennad gwych ar gyfer yr ysgol, ac ers dod yn llysgennad a dod i'n cynhadledd, mae Kennedy a'i charfan o lysgenhadon wedi defnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu a'i roi ar waith yn yr ysgol. Maen nhw wedi cyflwyno gemau iard chwarae amser egwyl a chinio ar gyfer eu cyfoedion yn yr ysgol, ac maen nhw'n gweithio ar eu Prosiect Dragon's Den. Mae Kennedy wedi cyflawni 20 awr y mis yma.

"Rydw i wedi bod yn gwneud llawer o chwaraeon fel pêl-rwyd, nofio a phêl-droed yn ogystal ag arwain gemau ar yr iard chwarae ac rydyn ni'n cynllunio gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn newydd. Rydw i'n teimlo'n fwy heini ac yn falch iawn o fod yn Llysgennad Ifanc.

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - IONAWR 2025**

Chwaraeon RhCT Sport RCT | sportwales chwaraeoncymru | YOUTH SPORT TRUST | RHONDDA CYNON TAF